# Adroddiad Arbennig a gyhoeddwyd o dan a28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn dilyn cwyn a wnaed yn erbyn Cyngor Caerdydd

Adroddiad gan yr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 202002933

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Fy awdurdodaeth | 3 |
| Y cefndir | 3 |
| Gweithredu’r camau | 4 |
| Sylwadau’r Cyngor ar yr adroddiad drafft | 4 |
| Dadansoddiad a chasgliadau | 5 |
| Argymhellion pellach | 6 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") .

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Felly mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at yr Achwynydd fel yr Aelod Seneddol (AS), y Person a Dramgwyddir fel Mr A, ac at unrhyw aelod o staff Cyngor Caerdydd gan deitl eu swydd.

## Crynodeb

Cwynodd Mr A i'r Ombwdsmon ym mis Mawrth 2020, trwy ei AS, fod Cyngor Caerdydd wedi methu â chwblhau asesiad annibynnol o'i anghenion yn gynnar yn 2019, ar ôl iddynt gytuno i wneud hynny. Yn unol â'i bwerau, datrysodd yr Ombwdsmon y gŵyn (fel dewis arall yn lle ymchwilio) ar sail cytundeb y Cyngor i gynnal asesiad annibynnol o anghenion Mr A. Roedd y camau hyn i'w cwblhau erbyn 27 Medi 2020.

Roedd yr Ombwdsmon yn anfodlon bod y Cyngor (heb esgus rhesymol) wedi methu â chydymffurfio â'r argymhelliad cynharach. Felly, defnyddiodd ei bwerau i gyhoeddi adroddiad arbennig. Roedd hyn yn feirniadol o fethiant y Cyngor i weithredu'r argymhelliad yr oedd wedi cytuno iddo'n flaenorol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ymdrechion rhagweithiol ganddo nes iddo gael fersiwn drafft o'r adroddiad arbennig yn gofyn am ei sylwadau. Felly, gwnaeth yr Ombwdsmon argymhellion pellach a chytunodd y Cyngor i:

a) Cwblhau asesiad annibynnol (i'w gynnal gan rywun nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor) o anghenion Mr A erbyn 31 Ionawr 2021.

b) Darparu diweddariad wythnosol i'w swyddfa am ddatblygiad yr asesiad annibynnol.

c) Rhoi copi o'r asesiad annibynnol i'w swyddfa ar ôl cwblhau.

d) Rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig i Mr A (o fewn 1 mis), gyda chopi i'r AS, am yr oedi wrth gwblhau'r asesiad annibynnol. Cytunodd hefyd i roi copi o'r llythyr i swyddfa'r Ombwdsmon.

## Fy awdurdodaeth

1. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf, yn unol ag a6, gallaf gymryd unrhyw gamau yr wyf yn ystyried iddynt fod yn briodol i ddatrys cwyn fel dewis arall yn hytrach nag ymchwilio iddi. Gall hyn gynnwys cytuno â chorff perthnasol y bydd yn cymryd camau penodol o fewn amserlen benodol. Pan fyddaf yn anfodlon bod y corff perthnasol wedi ymgymryd â'r camau y cytunodd yn benodol i'w gweithredu o fewn yr amserlen, gallaf gyhoeddi adroddiad arbennig o dan a28 (6) y Ddeddf.

## Y cefndir

2. Mae Mr A yn ddyn sy'n agored i niwed. Mae ganddo anhwylder personoliaeth a nam gweledol. Mae'n hysbys i Gyngor Caerdydd ("y Cyngor") ac i'w AS, sydd wedi bod yn eirioli iddo ers peth amser. Mae Mr A yn byw mewn llety a ddarperir gan y Cyngor ac mae'n cael ei gefnogi gan Dîm Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion y Cyngor.

3. Ar **3 Mawrth 2020** cwynodd yr AS ar ran Mr A, wrthyf fod y Cyngor wedi methu â chwblhau asesiad annibynnol i anghenion Mr A. Dywedodd fod y Cyngor wedi cytuno i ymgymryd ag asesiad annibynnol o anghenion Mr A yn dilyn cyfarfod rhwng Uwch Weithiwr Achosion a Rheolwr Swyddfa'r AS a Chyngor Caerdydd yn gynnar yn 2019.

4. Ar **4 Mai** (ar ôl i fy swyddfa ymholi), dywedodd swyddog yn Nhîm Cwynion y Cyngor ("y Swyddog") nad oedd y Cyngor wedi gwrthod trefnu asesiad annibynnol o anghenion Mr A. Dywedodd fod gweithwyr cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor, ond heb eu penodi i Mr A, wedi cwblhau asesiadau o anghenion Mr A ym mis Mawrth a mis Medi 2019. Dywedodd y Swyddog na sylweddolodd fod y cais ar gyfer gwneud asesiad Mr A yn annibynnol o'r Cyngor. Awgrymodd y Swyddog efallai y bydd y Cyngor yn gallu datrys cwyn Mr A trwy gwblhau asesiad annibynnol o'i anghenion.

5. Yr un diwrnod, gofynnodd fy swyddfa wrth y Swyddog a fyddai yn cytuno, gan ystyried unrhyw anawsterau a achoswyd gan fesurau a osodwyd oherwydd pandemig COVID-19, i gwblhau asesiad annibynnol o anghenion Mr A cyn pen 4 mis. Rhoddodd fy swyddfa wybod i'r Swyddog,

pe bai'r Cyngor yn profi unrhyw anawsterau wrth drefnu'r asesiad annibynnol oherwydd gweithredu unrhyw fesurau COVID-19 estynedig yn annisgwyl, yna gellid trafod estyniad i unrhyw amserlen y cytunwyd arni.

6. Ar **27 Mai** rhoddodd y Swyddog wybod i'm swyddfa bod y Cyngor wedi cytuno â'r cynnig i ddatrys cwyn Mr A.

7. Caewyd y mater yn ffurfiol ar **28 Mai** ar y sail y byddai'r Cyngor, o fewn 4 mis, yn trefnu i gwblhau asesiad annibynnol (i'w gynnal gan rywun nad oeddent yn gweithio i'r Cyngor) o anghenion Mr A. Roedd hyn yn golygu bod y Cyngor wedi cytuno i gwblhau'r asesiad erbyn **27 Medi.**

## Gweithredu'r camau

8. Gofynnwyd i'r Swyddog am y newyddion diweddaraf ar **8 Hydref,** gan na chlywyd am unrhyw beth erbyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau. Ar **15 Hydref** rhoddodd wybod i'm swyddfa nad oedd yr asesiad annibynnol wedi'i gwblhau.

9. Dywedodd y Swyddog ei fod yn cymryd cyfrifoldeb am beidio â chwblhau'r camau cytunedig o fewn yr amserlen cytunedig. Ychwanegodd fod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn anodd iawn gan bod sawl aelod o staff cwynion wedi gadael a'i bod wedi cymryd peth amser i lenwi'r swyddi gwag. Dywedodd y Swyddog iddo drafod yn fyr y camau cytunedig â chydweithiwr yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r teimlad oedd y byddai'r Cyngor yn cael trafferth cwblhau'r camau cytunedig oherwydd cyfyngiadau lleol COVID-19. Cydnabu nad oedd hyn wedi cael ei fynegi i Mr A, nac i'm swyddfa.

## Sylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad drafft

10. Dywedodd y Cyngor, oherwydd pryderon diogelwch, bu'n rhaid anfon 2 aseswr annibynnol i eiddo Mr A. Dywedodd fod hyn yn peri anhawster oherwydd roedd yn anodd dod o hyd i 2 aseswr annibynnol gyda'r un amserlen.

11. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi gwneud ymholiadau i ddod o hyd i 2 aseswr annibynnol a allai gwblhau'r asesiad o anghenion Mr A. Serch hynny, dywedodd nad oedd 2 ohonynt yn gallu cynnal asesiad nes yr wythnos yn dechrau 11 Ionawr 2021, roedd un arall yn gwirio a allent wneud hynny'r wythnos yn dechrau 30 Tachwedd 2020 ac, oes oeddent yn gallu, byddai angen i'r Cyngor ddod o hyd i aseswr annibynnol arall a fyddai ar gael yr un wythnos, a mynegodd bedwerydd aseswr annibynnol y gallant gynnal yr asesiad annibynnol ond, ers hynny, bu'n rhaid iddo hunan ynysu oherwydd canllawiau COVID-19.

12. Dywedodd y Cyngor ei fod yn gwerthfawrogi ei fod eisoes wedi cael cryn dipyn o amser i gwblhau'r asesiad annibynnol o anghenion Mr A. Gofynnodd a fyddai'n dderbyniol cwblhau'r asesiad annibynnol erbyn diwedd Ionawr 2021.

## Dadansoddiad a chasgliadau

13. Cytunodd y Cyngor yn benodol i dderbyn a gweithredu telerau'r datrysiad a gynigiwyd gan fy swyddfa ym mis Mai 2020, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 7 uchod. Methodd â gwneud hynny.

14. Wrth ystyried a ddylid cyhoeddi'r adroddiad hwn neu beidio, rwyf wedi ystyried nid yn unig y ffaith bod y Cyngor wedi cytuno'n benodol i'r camau datrys, a'r amserlenni hael ar gyfer eu gweithredu a oedd yn ystyried effaith cyfyngiadau COVID-19, yna ei fethiant i'w cyflawni. Rwyf hefyd wedi ystyried faint o amser y mae'r Cyngor wedi'i gael ar y cyfan i gwblhau asesiad annibynnol o anghenion Mr A (ers 2019).

15. Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol bod Mr A yn agored i niwed ac wedi bod yn aros am asesiad annibynnol o'i anghenion am dros 18 mis. Mae hyn yn golygu y bydd Mr A wedi bod heb wasanaethau, y gall yr asesiad ddod i'r casgliad ei fod eu hangen, am 18 mis.

16. Yn ystod y 4 mis, ni chysylltodd y Cyngor â fy swyddfa i roi gwybod wrthym am unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gyflawni'r camau neu i drafod estyniad i'r amserlen gytunedig. Yn syml, ni wnaeth unrhyw beth. Yn yr un modd, methodd y Cyngor i roi'r newyddion diweddaraf i Mr A. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar gyrff cyhoeddus. Cafodd hyn ei

ystyried ar y cychwyn wrth benderfynu a chytuno gyda’r Cyngor yr amserlen ar gyfer gweithredu.

17. Mae datrysiad o dan a6 y Ddeddf yr un mor bwysig ag argymhellion ffurfiol yn dilyn ymchwiliad llawn gan fy swyddfa. Mae’r canlyniadau fy methiant rhag cael fy modloni mewn perthynas â’u gweithredu yn union yr un fath - sef cyhoeddi adroddiad fel hwn o dan a28 y Ddeddf. Nid yw cyhoeddi adroddiad tebyg yn beth cyffredin ac nid yw’n benderfyniad a gymeraf yn ysgafn. Rwy’n ystyried ei bod yn annerbyniol i gorff cyhoeddus mawr fethu â chymryd camau prydlon ac effeithiol i sicrhau bod argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu'n iawn. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae’n ymwneud â’r angen i gefnogi person sy’n agored i niwed. Methodd y Cyngor â chyflawni’r hyn sydd, mewn gwirionedd, yn addewidion cyfrwymol i mi fel Ombwdsmon.

18. Mae’r Cyngor bellach wedi cytuno i gwblhau asesiad annibynnol erbyn diwedd Ionawr 2021 ar ôl dod o hyd i aseswyr annibynnol addas posibl. Rwy’n derbyn yr amserlen hon o ystyried yr anhawster a gafwyd wrth geisio dod o hyd i aseswyr annibynnol sydd ar gael a’r angen i fynd yno mewn parau. Mae’n drueni, o gofio bod y Cyngor eisoes yn ymwybodol o’r angen i ymweld â Mr A mewn parau, a’r anhawster ymddangosiadol i ddod o hyd i aseswyr annibynnol addas gydag amserlenni sy’n cydweddu â’i gilydd, bod y Cyngor wedi methu â chymryd camau rhagweithiol i weithredu fy argymhellion blaenorol nes nawr. Nid yw wedi rhoi unrhyw dystiolaeth i ddangos unrhyw ymdrechion cynharach a wnaed ganddo ers cytuno’n wreiddiol i’r camau ym mis Mai 2020. Felly, rwy’n cyhoeddi’r adroddiad hwn yn ei ffurf derfynol gyda’r argymhellion pellach canlynol.

## Argymhellion pellach

19. Rwy’n disgwyl ac yn **argymell** bod y Cyngor yn:

(a) Cwblhau asesiad annibynnol (i’w gynnal gan rywun nad ydynt yn gweithio i’r Cyngor) o anghenion Mr A erbyn 31 Ionawr 2021.

(b) Darparu diweddariad wythnosol i’m swyddfa am ddatblygiad yr asesiad annibynnol.

(c) Ar ôl cwblhau, rhoi copi o’r asesiad annibynnol i’m swyddfa.

(d) Rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig i Mr A (o fewn **1 mis** o ddyddiad yr adroddiad hwn), gan anfon copi i’r AS, am yr oedi wrth gwblhau’r asesiad annibynnol. Dylai hefyd roi copi o’r llythyr i’m swyddfa.

20. Rwy’n falch o nodi bod y Cyngor, yn eu sylwadau ar y drafft o’r adroddiad hwn, wedi cytuno i weithredu’r argymhellion hynny.



**Nick Bennett** 2 Rhagfyr 2020
Yr Ombwdsmon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales